



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Gwneud cwyn

GWAITH Y CYNGOR OSTEOPATHIG CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn gyfrifol am:

- > gynnal Cofrestr o'r rhai sydd â'r hawl i alw'u hunain yn osteopath;
- > darparu ar gyfer addysg ac ymddygiad osteopathiaid;
- > rheoleiddio'r proffesiwn osteopathig.

Mae Senedd San Steffan wedi rhoi pwerau i'r Cyngor gyflawni'i ddyletswyddau a sicrhau hyder ac ymddiriedaeth rhwng osteopathiaid a'u cleifion.

COFRESTR STATUDOL OSTEOPATHIAID

Mae'r Cyngor yn cadw Cofrestr o bawb sydd â'r hawl i ymarfer osteopathi. Mae croeso i unrhyw un weld y Gofrestr. Gall aelodau'r cyhoedd gael y wybodaeth ddiweddaraf am gofrestriad osteopath neu wybodaeth gyffredinol am osteopathiaid sy'n gweithio mewn ardal benodol trwy'n ffonio ni ar 020 7357 6655 neu bori drwy'r Gofrestr ar ein gwefan www.osteopathy.org.uk.

ADDYSG A HYFFORDDIANT OSTEOPATHIAID

Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i bennu a monitro 'Safonau Hyfedredd'. Dyma'r safon sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer osteopathi yn ddiogel. Rhaid i ni sicrhau bod y cymwysterau a ddyfernir gan unrhyw sefydliad addysg ym maes osteopathi yn bodloni'r safonau hynny. Unwaith mae osteopath wedi cofrestru, rhaid iddo barhau i ddatblygu ac i gael ei hyfforddi a chynnal y safonau proffesiynol.

ADDASRWYDD I YMARFER

Mae gennym bwerau cyfreithiol i ystyried achosion lle honnir bod osteopath:

- > yn euog o ymddygiad annerbyniol;
- > yn euog o anallu proffesiynol;
- > yn euog o drosedd;
- > yn methu ag ymarfer yn briodol fel osteopath oherwydd ei gyflwr meddyliol neu gorfforol.

BETH ALLA I WNEUD OS OES PROBLEM GYDA FY OSTEOPATH?

Os ydych chi'n credu bod y broblem yn ymwneud â'r math o wasanaeth gawsoch chi gan y practis, neu'n gysylltiedig ag ymddygiad yr osteopath, cysylltwch â nhw'n uniongyrchol i drafod y mater yn drylwyr. Mae'r rhan fwyaf o broblemau yn deillio o gamddealltwriaeth, ac mae modd i chi eu datrys yn bersonol.

Os ydych chi'n dal yn anfodlon neu os yw'n gŵyn fwy difrifol, cysylltwch â'n hadran Addasrwydd i Ymarfer. Efallai fod gan y Cyngor y grym i ymdrin â'r mater. Byddwn yn gallu'ch cynghori ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd.

GWNEUD CWYN

Gallwch ffonio i drafod eich cwyn gyda ni. Os ydych chi am gyflwyno cwyn ffurfiol i ni, byddwn yn gofyn i chi ddarparu cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth ynglŷn â'ch honiadau. Hoffem gael hyn ar bapur, felly efallai byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen i'n helpu ni.

BETH NESAF?

Rydym yn ystyried unrhyw gŵyn am osteopath yn ddifrifol dros ben. Rydym yn dilyn rheolau'r Cyfrin Gyngor wrth gymryd camau i ymchwilio ac ymdrin â'r gwyn. Bydd Gwiriwr yn asesu'ch cwyn, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn fater y dylem fynd i'r afael ag e. Bydd y Gwiriwr yn edrych yn ofalus ar yr holl wybodaeth a gawsom gennych. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau ambell beth.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'n bosibl na fydd y Gwiriwr yn mynd i'r afael â'ch cwyn ar hyn o bryd. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn esbonio i chi pam nad ydym yn mynd â'r mater ymhellach. Mae'n bosibl bod yna sawl rheswm, er enghraifft:

- > nid yw'r ymarferydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol;
- > nid yw'r gŵyn yn ddigon difrifol;
- > nid yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymarfer yr osteopath;
- > does dim digon o dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn.

Ni fydd y Gwiriwr yn gwrthod cwyn heb gysylltu ag aelod llewg o'r Pwyllgor Ymchwilio yn gyntaf. Os nad yw'r Gwiriwr yn gallu bwrw ymlaen â'r achos, efallai y bydd yr osteopath yn derbyn hysbysiad ffurfiol i ddweud y bydd y mater yn cael ei ystyried os bydd ymchwiliad pellach – er mwyn gweld a oes modd casglu digon o dystiolaeth i gefnogi'ch honiadau. Waeth pa mor ddifrifol yw'ch cwyn, rhaid cael digon o dystiolaeth i gynnal gwrandawriad. Os na allwn ni wneud hyn, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'ch achos.

Os ydym yn ymchwilio i gŵyn, byddwn yn rhoi gwybod i'r osteopath ynglŷn â'r honiadau, ac mae ganddo'r hawl i ymateb. Bydd angen eich caniatâd chi arnom i gysylltu â'r osteopath ac felly bydd yn gwybod pwy ydych chi. Byddwn hefyd yn anfon copi o'r honiadau at yr osteopath.

Y PWYLLGOR YMCHWILIO

Bydd y Gwiriwr yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwilio, sy'n cynnwys osteopathiaid ac aelodau lleyg. Eu swydd yw asesu'r gŵyn, y dystiolaeth ategol ac unrhyw ymateb gan yr osteopath. Yna, rhaid iddynt benderfynu ai cynnal gwrandawriad cyhoeddus neu beidio.

Ar ôl trin a thrafod adroddiad y Gwiriwr, gall y Pwyllgor Ymchwilio:

- > gyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Iechyd os yw'n ymddangos bod gan yr osteopath broblemau iechyd (os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Iechyd, cysylltwch â ni);
- > penderfynu peidio â chymryd camau pellach;
- > cyfeirio'r honiadau i wrandawriad cyhoeddus.

Os yw'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu cynnal gwrandawriad cyhoeddus, byddwn yn cyfarwyddo ein cyfreithwyr i baratoi achos yn erbyn yr osteopath.

GWRANDAWRIAD CYHOEDDUS GERBRON PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Mae holl wrandawriadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, ac yn gorfod dilyn gweithdrefnau ffurfiol, fel achos llys. Efallai y bydd y wasg yn bresennol. Bydd y Pwyllgor yn gwrandao ar y ddwy ochr ac yna, yn breifat a chyda chymorth asesydd cyfreithiol, yn ystyried pa ffeithiau sy'n sicr a phrofedig, ac a ydynt yn gyfystyr ag:

- > anallu difrifol;
- > ymddygiad annerbyniol; neu
- > gollfarn o drosedd ddifrifol.

Er mai chi o bosibl gyflwynodd y gŵyn wreiddiol, byddwch yn mynychu gwrandawriad y Pwyllgor fel tyst, ac efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth dan lw. Bydd y Pwyllgor bob amser yn cynnwys o leiaf un aelod lleyg o'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol sy'n trin pob achos o safbwynt y cyhoedd.

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Fel arfer, bydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ôl y gwrandawriad ac ym mhresenoldeb pawb a gymerodd ran. Os yw'n achos profedig, gall yr osteopath neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gyflwyno ple lliniaru cyn i'r Pwyllgor benderfynu pa gamau i'w cymryd. Dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y bydd enw'r osteopath yn cael ei ddileu o'r Gofrestr (sy'n golygu na all ymarfer fel osteopath).

Gall y Pwyllgor gymryd camau eraill hefyd gan gynnwys:

- > atal yr osteopath rhag ymarfer am gyfnod;
- > cyflwyno amodau ar ymarfer yr osteopath neu ganiatáu iddo barhau i weithio dan gyfyngiadau;
- > ceryddu'r osteopath yn ffurfiol.

Ni all y Pwyllgor orchymyn osteopath i dalu iawndal i'r cleient neu dalu dirwy.

APELIADAU

Gall osteopath apelio yn erbyn penderfyniad i ddileu neu gyfyngu ar ei gofrestrriad yn unrhyw un o'r llysoedd canlynol:

- > Llys Sesiwn yn yr Alban
- > Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon
- > Uchel Lys Cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr

Gallwch hefyd gyflwyno apêl i'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol.

CYSYLLTU Â'R CYNGOR OSTEOPATHIG CYFFREDINOL

Dyma fanylion cyswllt swyddfa'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol:

OSTEOPATHY HOUSE
176 TOWER BRIDGE ROAD
LLUNDAIN
SE1 3LU

FFÔN: 020 7357 6655

Os ydych chi'n cael trafferth darllen neu gyrchu'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Cyngor
Osteopathig Cyffredinol ar
ffôn: 020 7357 6655 est. 224
neu'r e-bost: regulation@osteopathy.org

The General Osteopathic Council

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655
Ffacs: 020 7357 0011
E-bost: info@osteopathy.org.uk
Gwefan: www.osteopathy.org.uk